HOLI AC ATEB ARCHEBU

Pam na allaf fewngofnodi?

Ar ôl i chi ychwanegu tocyn at eich archeb a phwyso 'Archebwch eich Tocyn' (Place Your Order), bydd y system yn gofyn i chi fewngofnodi. Dylech fewngofnodi gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi ar-lein CBCDC.

Os nad ydych erioed wedi archebu ar-lein gyda CBCDC o'r blaen, pwysywch Mewngofnodi (Sign Up) a chreu cyfrif newydd trwy nodi'ch manylion. Efallai fe ofynnir i chi ail-nodi'ch manylion cyfrif newydd (cyfeiriad e-bost a chyfrinair) i fewngofnodi'n iawn. Yna pwyswch Mewngofnodi (Sign In) i barhau gyda'ch archeb.

Oes gen i gyfrif ar-lein yn barod?

Cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 029 2039 391 a gallwn wirio a oes gennych gyfrif ar-lein gweithredol. Os gwnewch hynny, yn gyntaf bydd angen i chi ail-osod eich cyfrinair gan ddefnyddio'r ddolen gyfrinair anhofiedig yma: https://www.rwcmd.ac.uk/whats-on/tickets/account.

Ar ôl i'ch cyfrinair gael ei ail-osod, rydym yn argymell eich bod yn cau'r porwyr sydd gennych ar agor ac yn dechrau'r broses archebu eto, gan fewngofnodi trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a'r cyfrinair rydych chi newydd ei greu.

Pam fod e'n dweud bod y system wedi 'Methu dilysu' (Failed to authenticate)?

Os oes gennych gyfrif ar-lein eisoes ond mae'r system yn methu â dilysu'ch manylion, bydd angen i chi ail-osod eich cyfrinair gan ddefnyddio'r ddolen gyfrinair anhofiedig yma: https://www.rwcmd.ac.uk/whats-on/tickets/account.

Ar ôl i'ch cyfrinair gael ei ail-osod, rydym yn argymell eich bod yn cau'r porwyr sydd gennych ar agor ac yn dechrau'r broses archebu eto, gan fewngofnodi trwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a'r cyfrinair rydych chi newydd ei greu.

Pam na allaf ychwanegu mwy nag un digwyddiad i'r basged?

Fe gallwch! Ychwanegwch digwyddiad i'ch basged a symudwch ymlaen gyda'r proses archebu fel arfer.

Pan cyrhaeddwch y tudalen sy'n gofyn i chi gwblhau eich archeb, derbynwch termau cyfreithiol TicketCo. Yna gwasgwch **Cart** (nid Pay) a bydd hwn yn eich cymryd yn ôl at ein rhestr digwyddiadau lle gallwch ychwanegu mwy o ddigwyddiadau at eich basged trwy ailadrodd y proses archebu ar gyfer pob ddigwyddiad hoffwch ei wylio.

Pan fo'r digwyddiadau i gyd yn eich basged, gwasgwch **Checkout** (nid Pay) sydd yn y cornel top ar dde y sgrin. Yna, gallwch cwblhau eich archeb a thalu.

Am ba hyd y bydd y perfformiad ar gael imi ei wylio?

Dim ond ar gyfer gwylio'n fyw y mae ein digwyddiadau llif byw ar gael, felly dim ond ar y dyddiad a'r amser y bydd y perfformiad yn digwydd y byddwch yn gallu ei weld.

Bydd ein ffilmiau ar gael am nifer penodol o ddyddiau. Nodir y cyfnod hwn yn glir ar frig tudalen y digwyddiad, ond os ydych chi'n ansicr, gwiriwch gyda'r Swyddfa Docynnau.

Rydw i wedi archebu fy nhocyn ond sut ydw i'n gwylio'r perfformiad?

Fel rheol, anfonir tocynnau/cadarnhad i'r cyfeiriad e-bost cofrestredig a/neu rif ffôn o fewn awr ar ôl i'r taliad gael ei gymerawdwyo.

Bydd y cadarnhad hwn yn cynnwys y wybodaeth ar y perfformiad sydd angen arnoch. Ychydig yn is na 'Sut Mae'n Gweithio' (How does it work?), fe welwch botwm chwarae (Play) mawr. Pwyswch y botwm chwarae i ddechrau ffrydio'r perfformiad i'r ddyfais o'ch dewis. Os nad yw'r perfformiad o'ch dewis wedi cychwyn eto, fe welwch gloc yn cyfri lawr i amser cychwyn y digwyddiad.

Dwi wedi colli fy nhocyn, beth nawr?

Gwiriwch eich ffolderau Sbwriel a Junk. Os nad yw yno, ewch i https://ticketco.events/uk/en a phwyswch 'Dewch o hyd i'r tocynnau a brynwyd' (Find your purchased tickets).